OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

# Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 3

## SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Nwyddau a gwasanaethau*

**Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

**32.**—(1) Caiff awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i—

(a) person sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, neu

(b) person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Rhan honno,

ar yr amod bod y nwyddau hynny neu'r gwasanaethau hynny yn cael eu cyflenwi at ddiben arfer y swyddogaethau hynny neu wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, yn ôl y digwydd.

(2) Caiff y telerau a'r amodau y mae awdurdod lleol yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau arnynt o dan baragraff (1) gynnwys telerau ac amodau o ran talu a chânt fod yn wahanol ar gyfer personau gwahanol neu ar achlysuron gwahanol.

(3) Ond rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau na fyddai unrhyw delerau ac amodau o ran talu, drwy gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall, yn arwain at daliadau i'r awdurdod sy'n uwch na'r gost resymol iddo o gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau y gwneir y taliadau mewn cysylltiad â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 32 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Nwyddau a gwasanaethau.